Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein Cyf: CH25-015

Llyr Gruffydd MS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost yn unig: seneddhinsawdd@senedd.cymru

15 Ebrill 2025

Annwyl Llyr

## Canolfan Ymwelwyr Ynyslas

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth ynghylch Canolfan Ymwelwyr Ynyslas. Byddaf yn delio â'ch ymholiadau yn eu tro.

Rydym wedi sicrhau bod cyfrifon ein Canolfan Ymwelwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ar gael i'r cyhoedd ar ein tudalen we Hwb Ymgynghori. Maen nhw'n dangos bod Canolfan Ymwelwyr Ynyslas wedi gwneud colled o £72,976 am y flwyddyn honno.

Mae ein timau Rheoli Tir a Masnachol yn cydweithio i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau statudol yn y Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) yn y tymor hir, yn unol â ffocws ein Hachos dros Newid ar ein hamcanion strategol. Er mai dim ond un unigolyn sy'n gweithio fel swyddog GNG yn Ynyslas, mae tîm ehangach o arbenigwyr cadwraeth a rheoli tir yn ei gefnogi a bydd yn parhau i wneud hynny.

Nawr bod ein gwasanaethau canolfan ymwelwyr wedi dod i ben, bydd y Warchodfa Natur Genedlaethol yn parhau i gael ei rheoli fel y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol eraill rydym yn eu rheoli ledled Cymru, lle nad oes darpariaeth canolfan ymwelwyr.

Mae ymwelwyr â'n holl safleoedd, gan gynnwys Ynyslas, yn gyfrifol am eu diogelwch eu hunain yn ogystal â diogelwch unrhyw blant ac anifeiliaid sydd gyda nhw yn ystod eu hymweliad. Mae Ynyslas yn draeth baner goch ac wedi'i labelu'n glir felly; mae arwyddion yn cael eu gosod yn amlwg ar hyd y traeth a'r aber yn hysbysu'r cyhoedd o'r peryglon. Mae cyngor diogelwch hefyd ar gael i ymwelwyr ar ein gwefan, i'r rhai sy'n bwriadu ymweld ag Ynyslas.

O ran ordnans, mae arwyddion rhybudd yn eu lle o amgylch safle Ynyslas ynghyd â lluniau o'r mathau o ordnans sydd wedi eu darganfod, yn cynghori pobl i gysylltu â'r gwasanaethau brys os ydynt yn dod ar draws rhywbeth tebyg. Os rhoddir gwybod am ordnans, bydd ein tîm Digwyddiadau yn trefnu i gau'r ardal a bydd yn cael ei drin fel digwyddiad â blaenoriaeth. Mae rota digwyddiadau 24/7 i sicrhau ymateb cyflym, pe bai angen presenoldeb neu gamau eraill.

Diolch eto am eich llythyr. Rwy’n gobeithio fy mod wedi gallu mynd i’r afael â’ch pryderon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Syr David Henshaw
**Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chair, Natural Resources Wales**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb i hynny arwain at oedi.
Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.